Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU, DOGFENNU

# Cymhellion hyfforddi athrawon: myfyrwyr TAR (AB)

Canllawiau ar gymhwysedd a sut i wneud cais am y cymelliadau.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 14 Mehefin 2021

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 15 Ebrill 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cymhellion-hyfforddi-athrawon-myfyrwyr-tar-ab-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Crynodeb

Myfyrwyr sy'n gwneud cais am grant

Cyfrifoldebau'r Partneriaethau AGA am weinyddu'r grant

Pwy sy'n gymwys i gael y grant

Cymhelliant TAR AB mwyafrif yn fyd-eang

Swm y grant

Taliadau grant

Pa grantiau y dylid eu talu

Sut caiff y taliad ei wneud i Bartneriaethau AGA

Gohirio, tynnu'n ôl ac ailddechrau

Adennill grantiau cymhelliant a dalwyd

Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth

Cwestiynau cyffredin gan fyfyrwyr

Cwestiynau cyffredin gan bartneriaethau AGA

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cymhellion-hyfforddi-athrawon-myfyrwyr-tar-ab-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Crynodeb

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan adrannau 14 i 17 o Ddeddf Addysg 2002 i ddarparu cymorth ariannol, neu wneud trefniadau ar gyfer rhoi cymorth ariannol, i unrhyw berson ar gyfer, neu mewn cysylltiad â, galluogi unrhyw berson i gael unrhyw hyfforddiant ar gyfer athrawon neu ar gyfer staff nad ydynt yn addysgwyr; neu ar gyfer hyrwyddo recriwtio neu gadw athrawon neu staff nad ydynt yn addysgwyr.

Mae’r canllawiau hyn yn ymdrin â grantiau cymhelliant hyfforddi athrawon sydd ar gael i fyfyrwyr cymwys sy’n cychwyn ar gyrsiau amser llawn o addysg gychwynnol athrawon TAR (AB) cyn gwasanaethu, sy’n arwain at gymhwyster i addysgu yn y maes addysg bellach (“cymelliadau TAR (AB)”). Maent yn berthnasol o ran myfyrwyr cymwys yng Nghymru sy’n dechrau ar gyrsiau o’r fath rhwng 1 Medi 2024 a 31 Awst 2025.

Mae’r canllawiau wedi eu dyroddi gan Weinidogion Cymru ac yn darparu gwybodaeth am y cymelliadau TAR (AB); maent yn amlinellu’r cyllid sydd ar gael, pwy sy’n gymwys i gael grant a sut y gwneir taliadau. Er nad ydynt yn ymdrin â phob agwedd, rhoddir gwybodaeth lawn isod ynglŷn â chymhwystra a’r amodau. Dyllid darllen y canllawiau hyn yn eu cyfanrwydd er mwyn cael cadarnhad ynghylch cymhwystra i gael grant.

Nid yw’r canllawiau hyn yn ymwneud â chymelliadau a gynigir ar gyrsiau addysg gychwynnol athrawon sy’n arwain at ddyfarnu Statws Athro Cymwysedig.

# Myfyrwyr sy'n gwneud cais am grant

Mae Darparwyr AGA yn gyfrifol am weinyddu ac asesu cymhwysedd myfyrwyr ar gyfer grantiau cymhelliant ar ran Gweinidogion Cymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cymhellion-hyfforddi-athrawon-myfyrwyr-tar-ab-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Gall myfyrwyr ond hawlio grant cymhelliant os ydynt:

- yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd
- wedi gwneud cais drwy gwblhau'r ffurflenni datgan perthnasol

Os oes gan fyfyrwyr unrhyw ymholiadau am eu cymhwysedd a gwneud cais am grant neu unrhyw gwestiynau am y grantiau hyn, dylent gysylltu â'u Darpariwr AGA.

## Cyfrifoldebau'r Partneriaethau AGA am weinyddu'r grant

Mae Darparwyr AGA yn gyfrifol am:

- nodi'r myfyrwyr sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd
- rhoi'r ffurflenni datgan i fyfyrwyr cymwys ar ddechrau'r rhaglen AGA
- sicrhau bod myfyrwyr yn deall telerau'r grant
- casglu'r holl ffurflenni datgan wedi'u llofnodi, a'u dychwelyd mewn ffordd ddiogel i Lywodraeth Cymru
- cwblhau ffurflenni hawlio tymhorol
- sicrhau bod tystiolaeth ar gyfer y Cymhelliand Cymraeg yn cael eu casglu
- sicrhau bod tystiolaeth yn cale eu casglu ar gyfer rheini o gymunedau mwyafrif yn fyd-eang
- gweinyddu taliadau grant i fyfyrwyr
- delio ag ymholiadau gan fyfyrwyr ynghylch y grant

Caiff holl gyfrifoldebau'r Darparwyr AGA eu hamlinellu bob blwyddyn mewn llythyrau cynnig grant a llythyrau contract unigol. Os bydd gan Darparwyr AGA gwestiwn ynghylch y broses o weinyddu'r grant, dylent gysylltu â **post-16workforcedevlopment@llyw.cymru**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cymhellion-hyfforddi-athrawon-myfyrwyr-tar-ab-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Pwy sy'n gymwys i gael y grant

I fod yn gymwys i gael cymhelliant TAR (AB), rhaid i fyfyriwr:

1. pan dderbynnir y myfyriwr i’r cwrs, fod yn ddeiliad gradd gyntaf (Nid yw hyn yn cynnwys gradd sylfaen) o sefydliad addysg uwch yn y Deyrnas Unedig neu gymhwyster cyfwerth
2. bod â hawl ganddo i gael cymorth o dan reoliadau a wnaed o dan **adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998** ac sydd mewn grym ar y pryd, fel y mae’r rheoliadau hynny yn gymwys i’r **cwrs**
3. peidio â bod mewn unrhyw un o’r categorïau canlynol o bersonau nad oes hawl ganddynt i gael y grant hyfforddi:
   - myfyrwyr a gwblhaodd gwrs o addysg gychwynnol athrawon ar lefel addysg bellach cyn 1 Medi 2024
   - myfyrwyr sy’n cymryd Tystysgrif mewn Addysg (AB) nad yw’n gymhwyster ôl-raddedig
   - myfyrwyr TAR (AB) nad ydynt yn ddeiliaid gradd ar ddechrau’r cwrs
   - myfyrwyr TAR (AB) sy’n astudio ar gyrsiau mewn swydd
   - myfyrwyr TAR (AB) sy’n astudio yn rhan-amser
   - unrhyw un sydd eisoes yn ddeiliad Statws Athro Cymwysedig
   - unrhyw un a gyflogir i addysgu mewn unrhyw goleg addysg bellach neu sefydliad addysg arall mewn unrhyw swydd

Yn ogystal rhaid i’r rhai sy’n gwneud cais am gymhelliant y Gymraeg feddu ar sgiliau Iaith Gymraeg o **lefel 3** neu uwch (hunanasesiad).

# Cymhelliant TAR AB mwyafrif yn fyd-eang

Bydd myfyrwyr sydd wedi datgan ar ei ffurflen cais am grant ei bod yn nodi ei bod o gefndr y mwyafrif yn fyd-eang, yn medru derbyn £1000 ychwanegol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cymhellion-hyfforddi-athrawon-myfyrwyr-tar-ab-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

I fod yn gymwys ar gyfer Cymhelliant TAR AB Mwyafrif yn Fyd-Eang, uniaethu â myfyrwyr o un o'r grwpiau ethnig canlynol a datgan hynny i'w darparwr AGA:

Asiaidd:

- Bangladeshaidd neu Fangladeshaidd Prydeinig
- Tsieinïaidd neu Dsieinïaidd Prydeinig
- Indiaidd neu Indiaidd Prydeinig
- Pacistanaidd neu Bacistanaidd Prydeinig
- Unrhyw gefndir Asiaidd arall

Du, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd:

- Affricanaidd neu Affricanaidd Prydeinig
- Caribïaidd neu Garibïaidd Prydeinig
- Unrhyw gefndir Du arall

Grwpiau cymysg neu aml-ethnig:

- Gwyn neu Wyn Prydeinig ac Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig
- Gwyn neu Wyn Prydeinig a Du Affricanaidd neu Ddu Affricanaidd Prydeinig
- Gwyn neu Wyn Prydeinig a Du Caribïaidd neu Ddu Caribïaidd Prydeinig
- Unrhyw gefndir Cymysg neu Aml-ethnig arall

Gwyn:

- Gwyn, Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig
- Gwyn, Roma

Grŵp ethnig arall:

- Arabaidd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cymhellion-hyfforddi-athrawon-myfyrwyr-tar-ab-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Swm y grant

Cynigir cymelliadau o hyd at £3,000 (i rai sy'n astudio yn y pynciau penodedig a restrir isod) neu hyd at £1,000 (i rai sy'n astudio mewn unrhyw bwnc arall).

### Pynciau mathemateg

Mathemateg Gymhwysol

Mathemateg Gyffredinol

Mathemateg a mecaneg

Mathemateg ac ystadegaeth

Mathemateg Bur

Ystadegaeth

### Pynciau gwyddoniaeth

Gwyddoniaeth Gymhwysol

Bioleg

Cemeg

Cadwraeth

Gwyddor daear

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cymhellion-hyfforddi-athrawon-myfyrwyr-tar-ab-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Ecoleg

Electroneg

Gwyddor yr Amgylchedd

Gwyddoniaeth Gyffredinol

Daeareg

Bioleg Ddynol

Ffiseg

Gwyddor chwaraeon

## Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Cynllunio gyda Chymorth Cyfrifiadur (CAD)

Peirianwyr cyfrifiaduron

Astudiaethau cyfrifiadur(ol)

Gweithrediadau TG

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cymhellion-hyfforddi-athrawon-myfyrwyr-tar-ab-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cymraeg

## Sgiliau Byw – Llythrennedd a Rhifedd

## Technoleg a Pheirianneg

Trydanwyr modurol

Cynnal a chadw moduron

Peirianneg dylunio a datblygu

Dylunio a Thechnoleg

Peirianneg drydanol

Electroplatio

Astudiaethau peirianneg

Peirianneg fecanyddol

Peirianneg platiau metel

Mecaneg/peirianwyr moduron

Mecaneiddio chwaraeon moduro

Peirianneg cynhyrchu a phrosesau

Peirianneg rheweiddio

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cymhellion-hyfforddi-athrawon-myfyrwyr-tar-ab-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Technoleg Deunyddiau Gwrthsafol

Gwneud a ffitio offer

Gosod teiars, pibelli gwacáu a ffenestri blaen

Paentio a chwistrellu cerbydau

Adeiladu cyrff cerbydau

Weldio a ffabrigo

## Grant Ychwanegol ar gyfer Addysgu a Dysgu Cymraeg

Gall myfyrwyr sy'n astudio unrhyw bwnc (ac eithrio'r Gymraeg) wneud cais am grant ychwanegol o £1000.

Mae darparwyr AGA wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd o fewn 40 credyd i'r cwrs i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg.

Bydd angen cwblhau datganiad tyst 3 ffordd (tiwtor academaidd, mentor lleoliad ac athro dan hyfforddiant) sy'n cyd-fynd â thargedau clir fel tystiolaeth bod myfyriwr wedi gwneud yr hyn sy'n angenrheidiol i dderbyn y cymhelliant.

Dyma'r math o dystiolaeth a fyddai'n cael ei hystyried:

- Datblygu adnoddau cyfrwng Cymraeg i gefnogi dysgu ac addysgu
- Addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg/dwyieithog tra ar leoliad
- Datblygu sgiliau Cymraeg eu dysgwyr
- Datblygu'r gymuned Gymraeg ehangach o fewn eu lleoliad lleoli
- Datblygu perthnasoedd y tu allan i'w lleoliad, ee ac o fewn lleoliad cymunedol neu Cymraeg i Oedolion

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cymhellion-hyfforddi-athrawon-myfyrwyr-tar-ab-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Taliadau grant

## Pryd y dylid gwneud taliadau i fyfyrwyr

Telir rantiau pwnc bob tymor mewn tri rhandaliad, rhagfyr, Mawrth a Mehefin y flwyddyn astudio academaidd.

Bydd y rhai sy'n cydymffurfio'n llwyddiannus â grant y Gymraeg yn derbyn y swm llawn ochr yn ochr â'u taliad grant pwnc terfynol ym mis Mehefin yn y flwyddyn academaidd astudio.

Bydd darparwyr yn penderfynu ar union ddyddiadau'r taliadau. Dylent sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud cyn diwrnod gwaith olaf y mis. Ym mis Mehefin, hwn fydd diwrnod gwaith olaf mis Mehefin neu, os yw'n gynharach, yr wythnos y daw'r rhaglen i ben.

Dim ond i'r myfyrwyr hynny sy'n mynychu'r rhaglen ar ddyddiad y taliad y dylid gwneud taliadau. Os yw unrhyw fyfyriwr wedi tynnu'n ôl neu wedi gohirio (wedi gohirio) rhaglen cyn y dyddiad talu, ni ddylid gwneud taliad.

# Pa grantiau y dylid eu talu

## Taliadau grant TAR AB

| Swm y grant cymhelliant | Taliad yr hydref i'w dalu ym mis Rhagfyr | Taliad gwanwyn i'w dalu ym mis Mawrth | Taliad yr haf a'r taliad olaf i'w dalu ym mis Mehefin |
|---|---|---|---|
| £3,000 | £900 | £900 | £1,200 |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cymhellion-hyfforddi-athrawon-myfyrwyr-tar-ab-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

| Swm y grant cymhelliant | Taliad yr hydref i'w dalu ym mis Rhagfyr | Taliad gwanwyn i'w dalu ym mis Mawrth | Taliad yr haf a'r taliad olaf i'w dalu ym mis Mehefin |
|---|---|---|---|
| £1,000 | £300 | £300 | £600 |
| £1,000 (Cymraeg) | £0 | £0 | £1,000 |

Os bydd person, a fyddai fel arall yn gymwys i gael cymhelliant TAR (AB), ond sydd hefyd wedi cael

1. rhan neu'r cyfan o gymhelliant TAR (AB), o dan y cynllun hwn neu unrhyw gynllun blaenorol yng Nghymru cyn 1 Medi 2024
2. neu wedi cael, ar unrhyw adeg, unrhyw swm o grant a oedd yn daladwy mewn perthynas â chynlluniau cyfatebol yn Lloegr

bydd y taliad o gymhelliant TAR (AB) y bydd hawl gan y person hwnnw i'w gael, yn cael ei leihau o'r swm o grant blaenorol a dalwyd i'r person hwnnw.

Dim ond hyd at uchafswm gwerth y grant cymhelliant yn y flwyddyn academaidd yr ymunodd â'r rhaglen y bydd gan fyfyrwyr cymwys hawl iddo, oni bai bod Gweinidogion Cymru'n cytuno fel arall yn ysgrifenedig.

# Sut caiff y taliad ei wneud i Bartneriaethau AGA

Rhaid i Darparwyr AGA casglu ffurflenni datgan unigol ar gyfer pob myfyriwr cymwys ar ddechrau pob blwyddyn academaidd. Mae'r datganiad yn cynnwys gwybodaeth sydd ei angen ar Lywodraeth Cymru i weinyddu a'i gwerthuso'r cynllun, a rhaid i Darparwyr AGA gallu rannu pob datganiad â Gweinidogion

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cymhellion-hyfforddi-athrawon-myfyrwyr-tar-ab-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Cymru mewn modd diogel os gofynir

Mae'r ffurflen ddatgan yn gofyn i fyfyrwyr gadarnhau eu bod wedi darllen a deall yr wybodaeth sydd ar y tudalennau gwe hyn. Os na dderbynnir y cadarnhad hwn gan ddarparwyr, ni ellir gwneud taliadau grant.

Cyn pob rhandaliad tymhorol, rhaid i Darparwyr AGA lenwi a chyflwyno ffurflen hawlio i Weinidogion Cymru er mwyn sicrhau bod arian priodol yn cael ei ryddhau. Bydd Darparwyr AGA yn cael gwybod am y dyddiadau cyflwyno drwy lythyr y cytundeb grant.

Bydd ffurflenni datgan a hawlio'n cael eu dosbarthu i Darparwyr AGA yn uniongyrchol. Os ydych yn darparwyr AGA a bod gennych unrhyw gwestiynau sy'n gysylltiedig â'r broses dalu, cysylltwch â **post-16workforcedevelopment@llyw.cymru**.

# Gohirio, tynnu'n ôl ac ailddechrau

Os bydd myfyriwr yn gohirio ei astudiaethau yn ystod tymor, ni fydd yn gymwys i gael y taliad tymhorol hwnnw. Fodd bynnag, os bydd myfyriwr yn ailafael yn ei astudiaethau yn yr un flwyddyn academaidd, fe fydd ganddo hawl i gael taliad am y cyfnod a fethwyd, hyd at uchafswm y cymhelliant. O dan yr amgylchiadau hyn bydd taliad yn cael ei wneud ar ôl cwblhau ac yn ychwanegol at daliad y tymor canlynol.

Os bydd myfyriwr yn ailafael mewn rhaglen AGA mewn blwyddyn academaidd wahanol i'r un y dechreuodd ynddi, neu os bydd yn gohirio rhaglen, parheir i wneud taliadau ar yr un gyfradd (os o gwbl) a oedd yn gymwys yn y flwyddyn academaidd yr ymunodd y myfyriwr â'r rhaglen, oni bai bod Gweinidogion Cymru yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cymhellion-hyfforddi-athrawon-myfyrwyr-tar-ab-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Bydd gan unigolion sy'n tynnu'n ôl o gwrs cyn iddo gael ei gwblhau, ac sy'n gymwys i gael grant cymhelliant, hawl i gael y taliad(au) tymhorol ar gyfer tymhorau y maent wedi'u cwblhau'n llawn yn unig.

## Adennill grantiau cymhelliant a dalwyd

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i adennill grantiau cymhelliant a dalwyd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Mae ganddynt ddisgresiwn i arfer y pwerau hyn ai peidio, a byddant yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod.

Caniateir i'r pwerau hyn gael eu harfer gan Weinidogion Cymru:

1. os bydd y derbynnydd, ar ôl cael unrhyw randaliad o grant cymhelliant, yn methu â chwrdd ag unrhyw feini prawf cymhwysedd a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru ac a nodir yn yr Atodlen neu'r canllaw gwybodaeth mewn perthynas â rhandaliad dilynol; neu
2. os yw'r derbynnydd, yn ei gais am grant cymhelliant, neu mewn cysylltiad â'r cais hwnnw, wedi darparu gwybodaeth anwir neu wybodaeth sy'n gamarweiniol; neu os oes tystiolaeth ddigamsyniol nad oedd y derbynnydd erioed wedi bwriadu cwblhau'r cwrs neu, ar ôl ei gwblhau, nad oedd yn fwriad ganddo fynd i addysgu

## Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth

Mae gwybodaeth y mae myfyriwr yn ei chyflwyno fel rhan o'i hawliad o dan Gynllun hyfforddi athrawon yng Nghymru ar gyfer myfyrwyr TAR (AB) i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y "Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth"), Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (yr "EIR"), y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (y “GDPR”) a Deddf Diogelu Data 2018 (y "Ddeddf Diogelu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cymhellion-hyfforddi-athrawon-myfyrwyr-tar-ab-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Data").

Mae myfyrwyr hefyd yn cydnabod mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am benderfynu yn ôl ein disgresiwn llwyr:

1. ddatgelu unrhyw wybodaeth yr ydym wedi'i chael o dan neu mewn cysylltiad â'r Cyllid i'r graddau y mae'n ofynnol i ni ddatgelu gwybodaeth o'r fath i berson sy'n gwneud cais datgelu o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r EIR a/neu
2. bod unrhyw wybodaeth wedi ei heithrio rhag cael ei datgelu o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r EIR
3. cynnal gwiriadau at ddibenion atal twyll a gwyngalchu arian, ac i ddilysu hunaniaeth. Mae angen y gwiriadau hyn i brosesu data personol i asiantaethau atal twyll trydydd parti

Mewn rhai amgylchiadau gall Llywodraeth Cymru dderbyn eich gwybodaeth bersonol gan y darparwyr.

# Cwestiynau cyffredin gan fyfyrwyr

## A yw'r grant cymhelliant yn drethadwy?

Mae Cyllid a Thollau (HMRC) yn adran anweinidogol o Lywodraeth y DU sy'n gyfrifol am gasglu trethi. Nid yw grantiau cymhelliant fel arfer yn drethadwy i fyfyrwyr amser llawn. Fodd bynnag, dylai myfyrwyr geisio cyngor gan Cyllid a Thollau ar eu hamgylchiadau unigol.

## Beth fydd effaith y grant cymhelliant ar gymorth arall i fyfyrwyr?

Ni chaiff grant cymhelliant ei ystyried yn rhan o'ch incwm ar gyfer darpariaethau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cymhellion-hyfforddi-athrawon-myfyrwyr-tar-ab-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cyllid myfyrwyr sy'n seiliedig ar incwm y cartref. Felly, ni ddylid ei gynnwys wrth gyfrifo eich incwm trethadwy sydd heb ei ennill; fodd bynnag, dylai myfyrwyr geisio cyngor gan eu darparwr cyllid myfyrwyr ar eu hamgylchiadau unigol.

### Beth fydd effaith y grant cymhelliant ar fudd-daliadau?

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn adran o Lywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bolisi lles a phensiwn. Dylech ofyn am gyngor ganddynt ar eich amgylchiadau unigol.

### A fydd y grant cymhelliant yn sbarduno ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr?

Na, ddim os ydych yn dilyn cwrs llawnamser. Fodd bynnag, os ydych yn dilyn cwrs rhan-amser, bydd eich rhwymedigaeth yn dibynnu a ydych hefyd yn ennill cyflog (drwy waith nad yw'n gysylltiedig ag AGA) sy'n ddigon uchel i sbarduno ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr.

Gall ad-daliadau benthyciad gael eu sbarduno ar ôl i chi gwblhau eich cyrsiau, ennill SAC a dechrau ennill cyflog fel athro.

# Cwestiynau cyffredin gan bartneriaethau AGA

## Pa swm grant y dylid ei dalu?

Dylai'r myfyriwr nodi'n glir ar ei ffurflen ddatganiad pa bwnc y mae ei leoliad yn canolbwyntio ar addysgu. Cyfeiriwch at yr adran swm grant i benderfynu pa un ddylai'r myfyriwr ei dderbyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cymhellion-hyfforddi-athrawon-myfyrwyr-tar-ab-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Beth fydd yn digwydd os bydd myfyriwr yn tynnu / atal astudiaeth?

Dylid tynnu myfyriwr o hawliad cyn gynted ag y bydd yn tynnu'n ôl o gwrs. Dim ond am unrhyw dymor y maent wedi'i gwblhau yn llawn y dylid eu talu. Gweler yr adran Gohirio (atal), tynnu'n ôl ac ail-ddechrau am ragor o wybodaeth.

## Cwestiynau pellach?

Os oes gan Darparwyr AGA unrhyw gwestiynau'n ymwneud â'r wybodaeth hon neu gwestiynau nad ydynt wedi'u hateb yn yr wybodaeth hon, dylent gysylltu â **Post-16workforcedevelopment@llyw.cymru**.

Bydd myfyrwyr sydd ag unrhyw gwestiynau am y cymhellion yn cael eu cyfeirio at eu Partneriaeth AGA yn uniongyrchol.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cymhellion-hyfforddi-athrawon-myfyrwyr-tar-ab-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.